

Tasg 1

Defnyddiol!

Atebwch y cwestiynau hyn.

1. Pa un o'r brawddegau yma fyddai'n crynhoi **orau** agwedd yr awdur at siocled?
 - a. Mae'n hoffi bwyta siocled yn fawr.
 - b. Mae'n meddwl bod siocled yn iawn.
 - c. Mae'n casáu blas siocled.
 - ch. Mae'n gwerthfawrogi siocled.

Rhowch resymau dros eich ateb.

2. Mae arddull y darn yn ...
 - a. ffeithiol
 - b. tafodieithol
 - c. emosiynol
 - ch. barddonol

Rhowch resymau dros eich ateb.

3. Pam nad yw'r car yn cael cystadlu mewn rasys ceir?
 - a. gan fod y corff o datws yn torri'r rheolau
 - b. oherwydd bod yr olwyn lywio o foron yn torri'r rheolau
 - c. achos bod y tanwydd siocled yn torri'r rheolau
 - ch. achos bod cyflymder uchaf y car yn torri'r rheolau

4. Pa un o'r canlynol sy'n gywir yn ôl y darn?
 - a. Mae Prifysgol Birmingham wedi llwyddo i gynhyrchu ynni niwclear.
 - b. Mae Prifysgol Birmingham wedi creu paneli haul sy'n cynhyrchi ynni glân.
 - c. Mae Prifysgol Birmingham wedi llwyddo i ddefnyddio siocled i yrru car.
 - ch. Mae Prifysgol Birmingham wedi llwyddo i greu ynni drwy ddull glân iawn.

5. Mae'r darn yn dweud, "Yn sicr, mae manteision ac anfanteision i'r dulliau hyn o greu ynni."

Beth, yn eich barn chi, yw manteision ac anfanteision y dulliau canlynol o greu ynni?

Ysgrifennwch eich syniadau yn y grid ar y dudalen nesaf ac, yna, cymharwch eich syniadau chi â syniadau'r grŵp.

	Manteision	Anfanteision
Ynni'r haul		
Ynni gwynt		
Ynni niwclear		

6. Beth rydych chi'n ei feddwl o'r posibilrwydd o greu ynni o wastraff siocled?